CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

AGENDA CYFARFOD BLYNYDDOL

MAI 2011

DYDDIAD	Nos Fercher, 18fed Mai, 2011
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Canolfan Cae'r Gors
AELODAU'N BRESENNOL	Elin Evans, Jason Hunt, Gwilym V.Thomas, Rhys Owen, Elwyn Jones, Tom Ellis; Meurig Williams, Huw Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1.	Croeso
2.	Ethol swyddogion ar gyfer Cadeirydd ac Is-Gadeirydd: etholwyd Elwyn Jones fel cadeirydd yn ddi-wrthwynebiad. Etholwyd Gwilym V.Thomas fel is-gadeirydd am y flwyddyn.
3.	Ymddiheuriadau: Aeron M.Jones
4.	Datgan Buddiant Cynllunio – Elin Evans – Benar, Ffrwd Cae Du; Elwyn Jones, cynllunio Islwyn, Rhos Isaf
5.	Cadarnhau cofnodion – cadarnhawyd gofnodion mis Ebrill fel rhai cywir.
6.	Materion i'w trafod: a) Gwella'r pentrefi – clerc wedi danfon ffurflenni cynllunio. b) Pryniant tir ychwanegol i Cefnfaes. Clerc mewn cysylltiad a'r twrnai i geisio setlo materion. Mynd yn ol at Carter Jonas/Arglwydd Newborough i ofyn iddyn nhw drio dwyn perswad ar y tenant. Hefyd sgwennu at Alun Ffred Jones AC. c) Lein Bryngwyn – agoriad swyddogol yn digwydd fore Sadwrn, 21ain o Fai am 10 o'r gloch. Wedi derbyn grant pellach gan Gwmni Tir a Mor am £15k. Clerc yn casglu siec grant cymunedol am £200 gan gwmni Watkin Jones fory (Iau, 19eg) d) NW – palmant dros ffordd i Glyn Carrog, palmant efo cerrig man e) NW – Capel Foel i Hen Gapel – cyflwr gwael y ffordd. Clerc wedi cysylltu a'r Adran Briffyrdd. f) RO – goleuadau White Towers, goleuadau uchel efo spotlights – angen gosod *difuser* neu orchudd. Dallu pobl ar y ffordd. Clerc wedi cysylltu efo'r adran briffyrdd, ac maent wedi addo edrych mewn i'r mater. g) HW – bin baw ci reit wrth ymyl cysgodfan bysiau, clerc wedi cysylltu efo'r swyddog h) EE – kerbs Dinas wedi malu eto – loriau trwm sy'n malurio'r palmant. Deallwn fod y gwaith yma eisoes wedi'i wneud. i) AMJ – llwybr Cefnfaes i Ffrwd Cae Du (Bodaden) – clerc i gysylltu efo'r swyddog llwybrau. j) ElJ- torri gwair ar ochr y ffordd. Rhwng Ffrwd Cae Du a Rhostryfan; rhwng Rhostryfan a Dinas; rhwng Aberalaw a Penyffordd; Penyffordd i Clwb. Clerc wedi danfon llythyrau i gontractwyr gan ofyn am brisiau. Angen cael is-bwyllgor yr wythnos nesaf i benderfynu. k) NE – angen torri coed Pont Caer Moel-clerc i fynd ar ol rhain eto.
7.	Derbyn Adroddiadau

8.	Materion ariannol Cyfri Cadw: 14900.74 Cyfri Siec: 658.69 Taliadau: Cyflog clerc: £517.05 Cyllid y Wlad: dim yn daladwy Cyngor Gwynedd – rhent Tir Glas - £1 Aelodaeth SLCC - £95 Cyfraniad i Glwb ar ol ysgol Rhostryfan - £100 Cyfraniad tuag at arwydd newydd yng safle gorsaf Rhostryfan - £244 Cais am nawdd gan y Samariaid – ei roi ar ffeil ar gyfer y dyfodol
9.	Materion Cynllunio C11/0361/24/LL –Benar, Bontnewydd – codi estyniad un llawr i'r ochr ac estyniad llawr cyntaf i'r cefn ynghyd a chodi porth a chreu ffenstr bae – heb gael y manylion llawn gan Gyngor Gwynedd, felly methu gwneud penderfyniad. C11/0175/24/LL – Tir gyferbyn Islwyn, Rhos Isaf – codi sied amaethyddol- dim gwrthwynebiad C11/0222/24/LL – Perthi, Rhostryfan – estyniad a newidiadau - gwrthwynebu – rhy fawr Eisoes wedi'u caniatau: Tyddyn Difyr, Rhosgadfan – adnewyddu'r ty presennol ac estyniad
10.	Gohebiaeth 1) Llythyr gan Mr.Glyn Owen yn derbyn gwahoddiad i'r agoriad swyddogol a gan Mair a Dewi Tomos yn ymddiheuro na fyddant yn bresennol 2) Cytundeb Cyflawni Drafft Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon 3) Dogfennau chwaraecymru.org.uk 4) Is-bwyllgor Cymynrodd Elizabeth Hughes 5) Cylchgrawn 6) Llythyr gan Mair a Dewi Tomos, Gwelfor yn holi am wybodaeth am lwybr ger Tanyfron – clerc i holi pwy sydd berchen ar y darn tir yng nghefn y tai
11.	Materion mis nesa a) GLW – lon Cae Garw – Bryn Glas – angen mynd ar ol Cyngor Gwynedd eto, a Bryn Melyn a Pengroeslon b) GLW – cae chwarae Rhosgadfan, mynd i dorri gwair, peiriant wedi torri ond gobeithir ei yn yr wythnosa nesaf c) JH – cae chwarae Tir Glas, coed wedi chwythu o'na a caniau cwrw eto yn yr orsaf d) GVT – arwydd – loriau mawr yn mynd i fyny am lon Wen, angen arwydd wrth ymyl Bodgadfan Uchaf e) TE – cysylltu efo cyngor Llandwrog, llwybr Lein Bryngwyn f) NE – mynwent Cefnfaes – llythyr yn datgan ein bod yn anfodlon – angen

	torri'r fynwent yn amlach, a sylwi pan angen sylw. g) MW – biniau glas, biniau wedi'u taflu i ganol lon – clerc i gysylltu efo'r cyngor i gwyno. h) Eglwys St.Gwyndaf – y fynwent yn fler
12.	Daeth y cyfarfod i ben 8.20pm